Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
Wales Infected Blood Support Scheme

FFURFLEN K CAIS A CHANLLAWIAU

FFURFLEN GAIS TALIAD PLENTYN

CANLLAWIAU AR GYFER YMGEISWYR

Diben y ffurflen hon yw gwneud cais am daliadau plant, i helpu gyda chostau magu dibynnydd/dibynyddion buddiolwr heintiedig. Mae dibynyddion yn blant i fuddiolwyr heintiedig Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru hyd at 18 oed, neu hyd at 21 oed os ydynt mewn addysg amser llawn. Mae'r taliadau hyn ar gael i brif ddarparwr gofal y plentyn/plant. **Nid** yw'r taliadau hyn yn destun prawf modd.

Nid oes angen i unrhyw daliadau a gewch gan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru gael eu hystyried wrth gyfrifo eich bil treth incwm, nac unrhyw hawl i fudd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) sy'n dibynnu ar brawf modd; fodd bynnag, mae'n ofynnol i chi ddatgan iddynt eich bod yn aelod o'r cynllun. Byddant yn anwybyddu'r taliad hwn wrth gyfrifo hawl i fudd-dal ond os na fyddwch yn dweud wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau am yr arian hwn, ni fyddant yn gallu pennu pa arian y dylent ei anwybyddu a gellir effeithio ar unrhyw fudd-daliadau sy'n dibynnu ar faint o arian sydd gennych. Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan: https://wibss.wales.nhs.uk/cy/.

Plant a phobl ifanc cymwys
Mae plant a phobl ifanc cymwys yn:

- Blant dan 18 oed sydd fel arfer yn byw gyda chi; a
- Pobl ifanc 18 i 21 oed sydd fel arfer yn byw gyda chi ar yr amod eu bod yn:

    - Derbyn addysg llawn amser; neu
    - ar gwrs hyfforddi cymeradwy a ddechreuodd cyn eu pen-blwydd yn 19 oed

Ac nad ydynt:

- Wedi cofrestru ar gwrs sy'n uwch na gradd neu gyfwerth, neu
- Mewn addysg a dderbynnir trwy eu cyflogwr oherwydd eu gwaith.

Er mwyn i gwrs hyfforddi gael ei gymeradwyo dylai fod yn un o'r canlynol:

- Lloegr – Mynediad i Gyflogaeth neu Brentisiaethau a Arweinir gan Raglenni
- Yr Alban – Get Ready for Work, Skillseekers neu Brentisiaeth Fodern
- Cymru – Prentisiaethau Modern sylfaen, Adeiladu Sgiliau neu Adeiladu Sgiliau+

Noder: Peidiwch â chynnwys pobl ifanc sydd wedi gorffen cwrs addysg neu hyfforddiant fel y rhain yn barhaol. Peidiwch â chynnwys plant neu bobl ifanc sy'n

lletya gyda chi neu sy'n blant maeth.

PREIFAT A CHYFRINACHOL

Ar gyfer pob plentyn yr ydych yn dymuno gwneud cais ar ei gyfer bydd arnom angen:

- Tystysgrif geni fel prawf oedran.
- Cadarnhad o gyfrifoldeb rhiant/cyfreithiol, os nad yr ymgeisydd yw'r buddiolwr heintiedig, h.y. cadarnhad o daliad Budd-dal Plant; a
- Prawf o statws addysgol pob plentyn dros 18 oed nes eu bod yn 21 oed (h.y., llythyr cofrestru ar gyfer y cwrs).

Os mai chi yw prif ddarparwr gofal plentyn/plant buddiolwr heintiedig ond nad ydych yn fuddiolwr eich hun, efallai y bydd gennych hawl o hyd i wneud cais am gymorth ar gyfer y plentyn/plant yr ydych yn gofalu amdanynt.

Os oes rhywun arall yn gofalu am eich plentyn/plant ac mai nhw yw eu prif ofalwr, yna gallant lenwi'r ffurflen am daliad.

Dim ond un taliad y plentyn a roddir, felly sicrhewch fod y ddau riant a/neu warcheidwaid cyfreithiol
yn hapus i'r ymgeisydd dderbyn yr arian.

Cwblhewch bob cwestiwn ar y ffurflen isod a'i hanfon yn ôl i'r cyfeiriad ar waelod y ffurflen gais.

Os oes angen unrhyw help arnoch i lenwi'r ffurflen gais hon, ffoniwch 02920 902280 a siaradwch ag un o'n cynghorwyr hawliau lles.

Fel arfer byddwn yn delio â'ch cais o fewn 30 diwrnod gwaith o dderbyn eich ffurflen.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, byddwn yn ysgrifennu atoch i ofyn

amdani.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais, neu os yw'n fwy na 30 diwrnod gwaith ers i ni ei dderbyn ac nad ydych wedi clywed gennym ymhellach, gallwch ffonio tîm WIBSS ar 029 2090 2280, o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm.

Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
Wales Infected Blood Support Scheme

Ffurflen K - Ffurflen Gais Taliad Plentyn

TALIAD AM OFAL A CHEFNOGAETH PLENTYN/PLANT BUDDIOLIWR HEINTIEDIG

☐ **Rwy'n deall** y gall y data y byddaf yn eu darparu gael eu rhannu â darparwyr gwasanaeth y GIG a'r Gwasanaeth Atal Twyll i sicrhau bod taliadau'n gywir ac yn amserol ac at ddibenion atal, canfod ac ymchwilio i droseddau.

DATGANIAD GAN YR YMGEISYDD

Rwy'n cytuno bod yr wybodaeth rwy'n ei darparu ar y ffurflen hon yn gyflawn ac yn gywir.

Rwy'n cytuno i ad-dalu unrhyw arian y byddaf yn ei dderbyn nad oes gen i hawl iddo mwyach.
mwyach.

Rwy'n deall y gallwn gael fy erlyn am roi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn yn fwriadol.
anghywir neu anghyflawn yn fwriadol.

Rwy'n deall y gall fod angen i GIG Cymru gael gafael ar ddata a gedwir amdanaf gan gyrff cyhoeddus eraill a/neu wneud unrhyw ymholiadau ychwanegol i gyrff cyhoeddus eraill yn ôl yr angen, er mwyn dod i benderfyniad am fy nghais.

Llofnod yr Ymgeisydd _____ Dyddiad_____

Printiwch eich enw _____

SUT RYDYM YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Ni fydd yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu ar y ffurflen hon ond yn cael ei defnyddio gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre i wirio eich hawl i daliad ac i weinyddu eich cais.

Os bydd anghydfod yn ymwneud â'ch hawl i daliad, mae'n bosibl y caiff eich gwybodaeth ei datgelu i'r Panel Apeliadau. Os ystyrir bod eich cais yn anghymwys, mae'n bosibl y bydd Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn cadw eich ffurflen gais ar ffeil i sicrhau bod gennym gofnod hanesyddol llawn, rhag ofn y byddwch yn cyflwyno apêl neu'n gwneud cais am daliad eto yn ddiweddarach. P'un bynnag, bydd yr wybodaeth a gedwir amdanoch yn cael ei chadw at yr un diben ag y cafodd ei chasglu, a bydd yn cael ei chadw am chwe blynedd o leiaf.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw yn ddiogel ac yn gwbl gyfrinachol yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data, ac ni fydd yn cael ei rhannu ag unrhyw sefydliad arall. Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn Rheolydd Data o dan y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu amdanoch. Rydym wedi hysbysu Comisiynydd Gwybodaeth am ein gweithgareddau prosesu data a'n rhif cofrestru yw Z5021900.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y defnydd a wneir o'ch gwybodaeth, os oes gennych unrhyw bryderon am sut y caiff eich gwybodaeth ei phrosesu, neu os hoffech gael copi o'r wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch, cysylltwch â ni drwy ysgrifennu at Ganolfan Ganser Felindre, Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2TL.

Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth, gweler y Polisi Preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan.

Darllenwch y nodiadau canllaw uchod cyn llenwi'r ffurflen hon. Cwblhewch hi mewn LLYTHRENNAU BRAS.

A oes gennych chi unrhyw blant neu bobl ifanc cymwys sy'n byw gyda chi ac yr ydych chi'n eu cefnogi ac rydych chi'n dymuno gwneud cais ar eu cyfer?

Oes ☐ Nac oes ☐ **(Os nad oes, nid oes angen llenwi'r ffurflen hon. Os rhywun arall yw prif ofalwr eich plentyn/plant yna gallant lenwi'r ffurflen.)**

Rwy'n deall mai dim ond un taliad y gellir ei wneud fesul plentyn a chadarnhaf fod y ddau riant/gwarcheidwad cyfreithiol yn cydsynio i'r taliad fynd i'r ymgeisydd.

Llofnodwch yma i dystio eich bod yn deall y datganiad uchod

ADRAN 1 AM EICH CARTREF

Eich Manylion

Cyfeirnod WIBSS :

Teitl

Enw cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

Enw(au) blaenorol

Dyddiad Geni

Cyfeiriad
(rhaid bod
yn brif breswylfa)

Cod Post

Rhif Ffôn Cartref

Rhif Ffôn Symudol

Cyfeiriad E-bost

Rhif Yswiriant Gwladol

Beth yw eich Statws Priodasol? Ticiwch un opsiwn Isod:

☐ Priod

☐ Partneriaeth Sifil

☐ Byw gyda Phartner

☐ Gweddw

☐ Wedi ysgaru

☐ Wedi gwahanu

☐ Sengl

ADRAN 2 PLANT A PHOBL IFANC CYMWYS

Manylion y plant a phobl ifanc cymwys sy'n byw gyda chi:

Enw Cyntaf	Cyfenw	Dyddiad Geni	Perthynas i chi

Ar gyfer pob plentyn a restrir uchod bydd arnom angen:

- Tystysgrif geni fel prawf oedran.
- Cadarnhad o gyfrifoldeb rhiant/cyfreithiol, os nad yr ymgeisydd yw'r buddiolwr heintiedig, h.y. cadarnhad o daliad Budd-dal Plant; a
- Prawf o statws addysgol pob plentyn dros 18 oed nes eu bod yn 21 oed (hy, llythyr cofrestru ar gyfer cwrs).

Ai chi yw prif ofalwr y plentyn?

Ie ☐ Na ☐

Os 'na', rhowch fanylion pwy yw'r prif ofalwr:

ADRAN 3 GWYBODAETH YCHWANEGOL

Os oes unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffech ei roi i ni, defnyddiwch y gofod isod:

Diolch am gwblhau'r ffurflen hon.

Anfonwch y ffurflen gais hon at:

Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS)
3ydd Llawr, Tŷ'r
Cwmnïau, Ffordd y
Goron, Caerdydd.
CF14 3UB